**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**BLWYDDYN Y CYNGOR 2022-23**

**IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG 2022-2027**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR GWASANAETH – GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A CHYFATHREBU**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi sylwadau ac arsylwadau i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg yn dilyn gwaith cyn y cam craffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023

## 2. ARGYMHELLION

2.1 Argymhellir bod Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg yn nodi sylwadau ac arsylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y nodir ym mharagraff 5 yr adroddiad

## 3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

3.1 Yr angen i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg fod yn effro i sylwadau ac arsylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu cyn trafod a chymeradwyo Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27

## 4. GWYBODAETH GEFNDIROL

4.1 Yn dilyn ymrwymiad i gynnal gwaith cyn y cam craffu ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg cyn i Is-bwyllgor y Cabinet ei thrafod, derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu adroddiad y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned a amlinellodd nod yr ail gynllun gweithredu a sut mae'r Cyngor, a'i bartneriaid, yn bwriadu ychwanegu at waith y 5 mlynedd diwethaf i hybu'r iaith a hwyluso'r defnydd ohoni

4.2 Diben y gwaith cyn y cam craffu oedd rhoi cyfle i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor lunio sylwadau ac arsylwadau ar y cyd er mwyn i Is-bwyllgor y Cabinet eu trafod yn ei gyfarfod ar 9 Mai 2023

## 5. MATERION ALLWEDDOL

5.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, cyflwynodd Aelodau sylwadau mewn perthynas â rhai o'r materion allweddol, megis:-

- Roedd Aelodau'n falch o gael gwybod bod Swyddog Eisteddfod eisoes wedi bod yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i gynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad. Hoffai Aelodau weld targedau yng nghynlluniau gweithredu a busnes Eisteddfod yn y dyfodol.

- Nododd Aelodau yr hoffen nhw weld rhagor o gyfleoedd a chyfeiriadau sy'n trin y Gymraeg fel iaith fyw fel bod pobl yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg ar ôl iddyn nhw adael addysg brif ffrwd.

- Rhoddodd Aelodau glod i Wasanaeth y Llyfrgelloedd am ei ymgysylltiad â'r gymuned i annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at nifer y disgyblion sy'n dewis gadael addysg cyfrwng Cymraeg, ac **argymhellodd** fod yr Awdurdod yn monitro'r data yma a'r rhesymau pam maen nhw'n gadael yn agos. Cyfeiriodd Aelodau at ddarpariaeth ADY mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac at rieni nad ydyn nhw'n teimlo'n hyderus y bydd modd iddyn nhw roi cymorth i'w plant i wneud gwaith cartref a gweithgareddau allgyrsiol.

- **Argymhellodd** Aelodau gynnal gwaith pellach i ddeall beth yw'r rhwystrau canfyddedig o ran ymgysylltu â'r Gymraeg, megis cysylltiadau ag amddifadedd.

## 6. CASGLIAD

6.1 Mae craffu yn rhan hanfodol o lywodraethu da ac mae'n gwella proses gwneud penderfyniadau a darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor. Felly bydd gwaith cyn y cam craffu yn y maes yma, wedi'i gynnal gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn atgyfnerthu atebolrwydd ac yn helpu'r Cabinet i wneud unrhyw benderfyniadau ar y materion yma yn y dyfodol.

## 7. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH/DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

7.1 Mae Asesiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Effaith Economaidd-gymdeithasol wedi'i gwblhau ar gyfer prif Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027, ac mae modd bwrw golwg arno yma.

## 8. GOBLYGIADAU ARIANNOL AC ADNODDAU

8.1 Does dim goblygiadau ariannol penodol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, efallai bydd costau ac adnoddau sydd eu hangen ar wasanaethau er mwyn gwireddu'r Cynllun Gweithredu.

## 9.0 GOBLYGIADAU'R IAITH GYMRAEG

**9.1** Cafodd Asesiad Effaith ar y Gymraeg ei gwblhau ar gyfer prif Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 ac mae modd bwrw golwg arno yma.

## 10.0 GOBLYGIADAU CYFREITHIOL A DEDDFWRIAETH BERTHNASOL

10.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol ar gyfer y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma. Mae'r strategaeth hefyd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Mwy Na Geiriau (fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol Cymraeg) a Chynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (o dan y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013).

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

**fel sy wedi'i diwygio gan**

**DDEDDF LLYWODRAETH LEOL (CYFLE I WELD GWYBODAETH) 1985**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**RHESTR O BAPURAU CEFNDIR:**

**IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR GWASANAETH – GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A CHYFATHREBU**